

Datganiad i wefannau ysgolion

Mae Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013 wedi cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig am fethu bod yn bresennol yn gyson yn yr ysgol.

Mae Llywodraethu Cymru'n mynnu bod awdurdodau lleol yn llunio ac yn defnyddio'u Codau Ymddygiad Lleol eu hunain er mwyn bod yn gyson wrth gyflwyno hysbysiadau cosb. Bydd y cod yn dod i rym ym Mhowys o 27 Chwefror 2013.

Yn ôl Llywodraeth Cymru, un opsiwn yw hysbysiadau cosb o blith nifer o wahanol opsiynau i wella lefelau presenoldeb mewn ysgolion. Un rhan o strategaeth Llywodraeth Cymru yw'r rheoliadau hyn i wella lefelau presenoldeb mewn ysgolion ar draws Cymru.

Gyda'r rheoliadau hyn, mae'n bosibl y bydd rhieni'n cael dirwy os yw eu plant yn methu'r ysgol yn gyson.

Mae'r cod ymddygiad lleol, sy'n esbonio sut bydd yr hysbysiadau cosb yn gweithio, i'w weld ar wefan Cyngor Sir Powys.

<http://www.powys.gov.uk/en/schools-students/school-attendance-welfare/>

<http://www.powys.gov.uk/cy/ysgolion-a-myfyrwyr/presenoldeb-yn-yr-ysgol-a-lles/>